# Ysgol Aberconwy

# Polisi Addysg Cydberthynas & Rhywioldeb (ACRh)

**DOGFEN BOLISI RHIF: 38 RHIFYN: 2**

**CYMERADWYWYD Y POLISI HWN GAN Y CORFF LLYWODRAETHOL LLAWN**

**Llofnod:**

**Dyddiad: 28/06/22**

**Dyddiad adolygu: 01/07/24 Cyswllt TA: RHJ**

**Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb**

**Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (Datganiad o Ganllawiau Cwricwlwm i Gymru 2020).**
Mae gan Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) rôl hanfodol o ran gwella lles a diogelwch dysgwyr a bydd yn orfodol o fewn Cwricwlwm i Gymru 2022:

Mae gan ysgolion rôl bwysig o ran atal ac amddiffyn, trafod ac ymateb i gwestiynau ac anghenion dysgwyr. Y nod yw creu amgylcheddau diogel a grymusol sy'n adeiladu ar ddysgu a phrofiadau ffurfiol ac anffurfiol y dysgwyr eu hunain, all-lein ac ar-lein. Bydd hyn yn galluogi dysgwyr i fyfyrio a mynegi eu barn a'u teimladau ar ystod o faterion ACRh.

Nod darpariaethau addysg cydberthynas a rhywioldeb Ysgol Aberconwy yw grymuso dysgwyr yn raddol i adeiladu'r wybodaeth, y sgiliau a'r gwerthoedd moesegol ar gyfer deall sut mae perthnasoedd, rhyw, rhywedd a rhywioldeb yn llywio eu bywydau eu hunain a bywydau pobl eraill. Mae'n ceisio cefnogi hawliau dysgwyr i fwynhau cydberthnasau teg, diogel, iach a boddhaus drwy gydol eu hoes. Mae hyn yn cynnwys y gallu i adnabod, deall a siarad am wahaniaethu a thrais a gwybod sut a ble i geisio cymorth, cyngor a gwybodaeth ffeithiol ar ystod o faterion ACRh.

Bydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yr ysgol yn cynnwys dysgu datblygiadol briodol i ddysgwyr yn ymwneud â'r meysydd thematig canlynol.

- **Hawliau a chydraddoldeb** - Bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o'r ffordd y mae hawliau sy'n ymwneud â rhyw, rhywedd, rhywioldeb a chydberthnasau yn cyfrannu at ryddid, tegwch, urddas, lles a diogelwch pawb.
- **Cydberthnasau -** Bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o sut y gellir ffurfio a chynnal gwahanol fathau o gydberthnasau diogel, cydsyniol ac iach sy'n gwireddu eu dyheadau.
- **Rhyw, rhywedd a rhywioldeb -** Bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o ryw, rhywedd a rhywioldeb. Mae hyn yn cynnwys y ffordd mae bioleg, cymdeithas a diwylliant yn llywio ein hymdeimlad o hunan a'n perthnasau ag eraill. Bydd y dysgu yn cydnabod hunaniaeth rywiol, rhywedd ac amrywiaeth LGBTQ+ a dealltwriaeth o sut mae rhyw, rhywedd a rhywioldeb wedi esblygu dros amser.
- **Cyrff a delwedd gorfforol** - Bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o'r corff dynol a'r ffordd mae'n newid dros amser, gan gynnwys y ffordd mae pobl yn teimlo am eu cyrff, a'u galluoedd a'u swyddogaethau rhywiol ac atgenhedlol.
- **Iechyd a lles rhywiol** - Bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o rôl gadarnhaol rhywioldeb ym mywyd dynol ac ymwybyddiaeth raddol o iechyd a lles rhywiol personol. Bydd dysgwyr yn gwerthfawrogi'r ffyrdd gwahanol y mae pobl yn mynegi rhywioldeb mewn gwahanol ddiwylliannau, gan gynnwys mythau am iechyd a lles rhywiol.
- **Trais, diogelwch a chymorth** - Bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o natur gymdeithasol, emosiynol, corfforol a chyfreithiol trais sy'n seiliedig ar rywedd a thrais rhywiol a'i effaith, gan

gynnwys trais ar-lein. Bydd dysgwyr yn cael eu cefnogi i reoli gwrthdaro, risg a phwysau o wahanol fathau ac i fagu hyder i godi'u llais a gwybod sut i geisio cyngor a chymorth.

Llywodraeth Cymru, Canllawiau Cwricwlwm i Gymru 2020

**Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb**

Er mwyn cydymffurfio â statws gorfodol ACRh o fewn Cwricwlwm i Gymru 2022, mae'r ysgol yn cynllunio a datblygu rhaglen addysgu a dysgu gynhwysfawr, gynhwysol ar gyfer ACRh.

Mae'r polisi hwn yn cwmpasu dull dysgu ACRh yr ysgol. Cafodd ei gymeradwyo gan yr Uwch Dîm Rheoli trwy ymgynghori â staff, llywodraethwyr, rhieni a dysgwyr.

Mae'r polisi ACRh yn cysylltu â pholisïau Cydraddoldeb, Diogelu ac Amddiffyn Plant yr ysgol ac yn gyson â hwy.

Arweinir y polisi hwn gan reoliadau, canllawiau a chwricwlwm cyfredol Llywodraeth Cymru:

- Canllawiau Cwricwlwm i Gymru Llywodraeth Cymru 2020.
- Papur Gwyn Llywodraeth Cymru Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb mewn ysgolion 2019.
- Deddf Cydraddoldeb (2010).

**Cynllun y Cwricwlwm**

Er mwyn cydymffurfio â Chanllawiau Cwricwlwm i Gymru 2020 Llywodraeth Cymru, bydd y cwricwlwm ACRh yn cael ei addysgu drwy themâu trawsbynciol a bydd ganddo statws cyfartal â Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill. Bydd yn cael ei gyflwyno fel dull ysgol gyfan fel bod yr egwyddorion canlynol yn cael eu cefnogi a'u gwreiddio ar draws yr ysgol.

Bydd y dysgu yn:

- **seiliedig ar hawliau a chydraddoldeb rhywedd** fel y gall dysgwyr ddatblygu dealltwriaeth o sut mae hawliau'n gysylltiedig â pherthnasoedd, rhyw, rhywedd a rhywioldeb.
- **grymuso** i alluogi athrawon i greu cwricwlwm ACRh cadarnhaol sy'n hybu llais y dysgwr.
- **berthnasol ac yn ddatblygiadol briodol** i sicrhau bod yr holl ddarpariaeth ACRh yn cydnabod ac yn ymateb i anghenion pob dysgwr.
- **cael ei gynhyrchu ar y cyd**, gan gynnig cyfle i ddysgwyr fod yn rhan o benderfyniadau am ddysgu ac addysgu mewn ACRh.
- **greadigol** fel y gall darpariaeth ACRh greu amgylchedd moesegol, diogel a dengar i ddysgwyr deimlo, meddwl, cwestiynu a rhannu eu meddyliau ar bynciau sensitif.
- **gyfannol gyda themâu trawsbynciol** sy'n cynnwys elfennau biolegol, cymdeithasol, seicolegol, ysbrydol, moesegol a diwylliannol.
- **gynhwysol** i bob dysgwr, gan gydnabod a gwerthfawrogi amrywiaeth a gwahaniaeth o fewn rhyw, rhywedd, rhywioldeb a pherthnasoedd, ac yn sicrhau bod darpariaeth ACRh yn cynnwys bywydau LGBTQ+.

- **amddiffynnol ac yn ataliol** fel bod dysgwyr yn deall ac yn adnabod gwahaniaethu a thrais ac yn gallu ceisio cymorth a chyngor ynghylch iechyd, perthnasoedd, rhyw, cydraddoldeb rhywedd a rhywioldeb yn hyderus'.

Bydd cynllunio, addysgu, gwerthuso a monitro rhaglen ACRh yr ysgol yn cael ei wneud gan athrawon a'r Arweinydd ACRh. Rhoddir cyfleoedd i ddysgwyr wneud sylwadau ar bolisi, gwersi ac arfer ACRh yr ysgol trwy weithgareddau ymgynghori gyda dysgwyr blwyddyn 12 a 13. Mae eu barn yn cyfrannu at gynllunio'r cwricwlwm ac arfarnu effeithiolrwydd.

Mae Ysgol Aberconwy wedi ymrwymo i gynnal arolwg o'r holl gorff myfyrwyr ar bob agwedd sy'n ymwneud â'u hymddygiad o ran eu hiechyd a'u lles. Bydd yr ysgol yn parhau i ddefnyddio holiadur cynhwysfawr Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion (RhYIY) sy'n dod ag ysgolion uwchradd ac ymchwilwyr academaidd, llunwyr polisi ac ymarferwyr o feysydd iechyd, addysg a gofal cymdeithasol ynghyd i wella iechyd a lles pobl ifanc yn yr ysgol. Mae'n bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC), Cancer Research UK a Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru.
Ein nod yw gwella iechyd a lles pobl ifanc **trwy** ddefnyddio ein hadroddiadau RhYIY i werthuso pynciau iechyd emosiynol a chorfforol gyda data cenedlaethol er mwyn eu cymharu. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Bwyta'n iach a gweithgaredd corfforol
- Iechyd a lles meddyliol ac emosiynol
- Ysmygu a defnyddio alcohol a sylweddau eraill
- Rhyw a pherthnasoedd

Rydym yn cwblhau Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr bob dwy flynedd.

O bryd i'w gilydd gall rhaglen yr ysgol gael ei chefnogi gan asiantaethau allanol e.e. Stonewall/Viva i gefnogi materion rhywedd neu weithiwr iechyd proffesiynol fel nyrs yr ysgol i drafod iechyd rhywiol. Bydd y staff addysgu yn bresennol drwy gydol unrhyw wersi a gyflwynir gan asiantaethau allanol.

**Diwylliant ac amgylchedd yr ysgol**

Bydd yr ysgol yn sicrhau bod ACRh yn cael ei wreiddio yng ngwerthoedd a fframwaith moesol yr ysgol e.e. trwy ddangos parch at yr holl ddysgwyr, staff a'r gymuned ehangach, trwy gynnwys amrywiaeth rywiol, dathlu gwahaniaethau a thrwy feithrin perthnasoedd iach.

**Addysgu ACRh**

Bydd yr ysgol yn sicrhau amgylchedd dysgu diogel i athrawon, staff a dysgwyr drwy sefydlu a chytuno i gytundebau/rheolau dosbarth yr ysgol.

Bydd dysgwyr yn cael cyfleoedd i ofyn cwestiynau cyfrinachol/dienw pan fo'n briodol drwy ddefnyddio blwch cwestiynau dienw. Bydd pob cwestiwn yn cael ei ateb yn sensitif ac mewn modd sy'n briodol o ran datblygiad dysgwyr.

Bydd yr holl adnoddau'n cael eu dewis yn ofalus i weld a ydynt yn addas ac yn cael eu hadolygu i weld a ydynt yn effeithiol ar ôl i athrawon, dysgwyr a'r aelod staff sy'n Arweinydd ACRh eu defnyddio..

**Datblygiad proffesiynol staff**

Bydd yr ysgol yn sicrhau bod yr holl staff addysgu a staff cysylltiedig yn cael hyfforddiant ACRh priodol er mwyn sicrhau bod y rhaglen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ysgol gyfan yn effeithiol, yn briodol o ran datblygiad dysgwyr ac yn diwallu eu hanghenion.

**Partneriaethau gyda rhieni/gofalwyr a'r gymuned leol**

Mae'r ysgol yn cydnabod bod rhieni/gofalwyr yn hollbwysig i lwyddiant y rhaglen ACRh. Mae'r polisi ACRh i'w weld ar wefan yr ysgol.

Mae croeso i rieni/gofalwyr wneud trefniadau i ymweld â'r ysgol os ydynt yn dymuno gweld a thrafod y deunyddiau a'r adnoddau a ddefnyddir ar gyfer gwersi ACRh.

*Darperir Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb trwy gyfrwng:*

- Gwersi Bugeiliol Addysg Bersonol, Gymdeithasol ac Iechyd (ABChI)
- Sesiynau nyrs ysgol (Cyflwyniadau)
- Gwersi Gwyddoniaeth (Cynlluniau Dysgu)
- MDPh Iechyd a Lles Blwyddyn 7